

Annwyl

ATISN23321

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 30 Ionawr 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Copi o'r cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 rhwng swyddogion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Duolingo Inc.
- Os oes unrhyw gyfarfodydd dilynol wedi'u cynnal rhwng cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Duolingo Inc.

Ein Hymateb

Fe atebwyd cwestiwn 2 uchod mewn gohebiaeth ar 26 Chwefror 2025. Yn yr ohebiaeth honno fe wnaethom eich hysbysu ein bod ni'n asesu dogfen o'r enw "20231114 Nodyn cyfarfod Duolingo" ac yn ystyried a ddylid atal y ddogfen, neu rannau o'r ddogfen, o dan yr eithriadau canlynol yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

- Adran 41: Gwybodaeth a Ddarperir yn Gyfrinachol
- Adran 43: Buddiannau Masnachol

Amgaeaf gopi o'r wybodaeth yr ydym wedi penderfynu ei rhyddhau.

Rydym wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth o fewn y ddogfen yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan adran 41 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid eu cadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiad hwn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Yn dilyn ein asesiad rydym wedi penderfynu peidio dal unrhyw wybodaeth yn ôl o dan adran 43 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Buddiannau Masnachol).

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Atodiad 1

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i bawb, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau'r cam gyhoeddi'r wybodaeth. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rydym wedi penderfynu cadw peth gwybodaeth yn ôl o'r ddogfen "20231114 Nodyn cyfarfod Duolingo" sydd wedi'i atodi.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 41 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Ni chadwyd unrhyw rannau yn ôl o dan adran 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Buddiannau Masnachol).

Adran 41: Cyfrinachedd

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai peth gwybodaeth o'r ddogfen nodyn cyfarfod gael ei heithrio rhag ei ddatgelu.

Mae adran 41(1) yn datgan bod gwybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu lle mae'n cael ei darparu i'r awdurdod cyhoeddus yn gyfrinachol. Mae'r wybodaeth yn cael ei dal gan Adran 41 os:

- fe'i cafwyd gan yr awdurdod gan unrhyw berson arall;
- byddai ei ddatgelu yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd;
- gallai person cyfreithiol ddwyn achos llys am dorri'r cyfrinachedd hwnnw; a
- byddai'r achos llys hwnnw'n debygol o lwyddo.

Mae cofnodion y cyfarfod yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif a ddarparwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru yn gyfrinachol. Mae'r wybodaeth hon wedi'i hepgor gan ein bod wedi dod i'r casgliad y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd cyfreithadwy a byddai'n bosibl y gall rhyddhau'r wybodaeth niweidio'r berthynas gweithio yn y dyfodol a'r ymddiriedaeth sydd gan y cwmni yn Llywodraeth Cymru.